

Sunday 12th October 2025
+ The 17th Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, you have made us for yourself, and our hearts are restless till they find their rest in you : teach us to offer ourselves to your service, that here we may have your peace, and in the world to come may see you face to face; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from 2 Kings

(5.1-3, 7-15c)

Naaman, commander of the army of the king of Aram, was a great man and in high favour with his master, because by him the Lord had given victory to Aram. The man, though a mighty warrior, suffered from leprosy.

Now the Arameans on one of their raids had taken a young girl captive from the land of Israel, and she served Naaman's wife. She said to her mistress, 'If only my lord were with the prophet who is in Samaria! He would cure him of his leprosy.'

When the king of Israel read the letter, he tore his clothes and said, 'Am I God, to give death or life, that this man sends word to me to cure a man of his leprosy? Just look and see how he is trying to pick a quarrel with me.'

But when Elisha the man of God heard that the king of Israel had torn his clothes, he sent a message to the king, 'Why have you torn your clothes? Let him come to me, that he may learn that there is a prophet in Israel.'

So Naaman came with his horses and chariots, and halted at the entrance of Elisha's house. Elisha sent a messenger to him, saying, 'Go, wash in the Jordan seven times, and your flesh shall be restored and you shall be clean.'

But Naaman became angry and went away, saying, 'I thought that for me he would surely come out, and stand and call on the name of the Lord his God, and would wave his hand over the spot, and cure the leprosy! Are not Abana and Pharpar, the rivers of Damascus, better than all the waters of Israel? Could I not wash in them, and be clean?'

He turned and went away in a rage. But his servants approached and said to him, 'Father, if the prophet had commanded you to do something difficult, would you not have done it? How much more, when all he said to you was, "Wash, and be clean"?''

So he went down and immersed himself seven times in the Jordan, according to the word of the man of God; his flesh was restored like the flesh of a young boy, and he was clean.

Then he returned to the man of God, he and all his company; he came and stood before him and said, 'Now I know that there is no God in all the earth except in Israel.'

The Psalm

(111)

Alleluia. I will give thanks to the Lord with my / whole / heart: in the company of the faithful and / in the / congregation. The works of the / Lord are / great: sought out by / all / who de/light in them.

His work is full of / majesty and / honour: and his / righteousness en/dures for / ever. He appointed a memorial for his / marvellous / deeds: the Lord is / gracious and / full of com/passion.

He gave food to / those who / feared him: he is ever / mindful / of his / covenant. He showed his people the / power of his / works: in giving them the / heritage / of the / nations.

The works of his hands are / truth and / justice: all / his com/mandments are / sure. They stand fast for / ever and / ever: they are / done in / truth and / equity.

He sent redemption to his people; he commanded his / covenant for / ever: holy and / awesome / is his / name. The fear of the Lord is the beginning of wisdom; a good understanding have / those who / live by it: his / praise en/dures for / ever.

The reading from 2 Timothy

(2.8-15)

Remember Jesus Christ, raised from the dead, a descendant of David — that is my gospel, for which I suffer hardship, even to the point of being chained like a criminal. But the word of God is not chained. Therefore I endure everything for the sake of the elect, so that they may also obtain the salvation that is in Christ Jesus, with eternal glory.

The saying is sure: If we have died with him, we will also live with him; if we endure, we will also reign with him; if we deny him, he will also deny us; if we are faithless, he remains faithful — for he cannot deny himself.

Remind them of this, and warn them before God that they are to avoid

wrangling over words, which does no good but only ruins those who are listening. Do your best to present yourself to God as one approved by him, a worker who has no need to be ashamed, rightly explaining the word of truth.

The readings form the Gospel according to Saint Luke

(17.11-19)

On the way to Jerusalem Jesus was going through the region between Samaria and Galilee. As he entered a village, ten lepers approached him. Keeping their distance, they called out, saying, 'Jesus, Master, have mercy on us!'

When he saw them, he said to them, 'Go and show yourselves to the priests.' And as they went, they were made clean.

Then one of them, when he saw that he was healed, turned back, praising God with a loud voice. He prostrated himself at Jesus' feet and thanked him. And he was a Samaritan.

Then Jesus asked, 'Were not ten made clean? But the other nine, where are they? Was none of them found to return and give praise to God except this foreigner?'

Then he said to him, 'Get up and go on your way; your faith has made you well.'

The collect after communion

Lord, we pray that your grace may always precede and follow us, and make us continually to be given to all good works ; through Jesus Christ our Lord. AMEN

ydd Sul 12^{fed} Hydref 2025
+ 17^{eg} Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, gwnaethost ni ar dy gyfer di dy hun, ac y mae'n calonnau'n anniddig nes cael gorffwys ynot ti: dysg inni gynnig ein hunain i'th wasanaeth, fel y cawn yma dy dangnefedd, ac yn y byd a ddaw dy weld wyneb yn wyneb; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Darlleniad o 2 Brenhinoedd (5.1-3, 7-15c)

Yr oedd Naaman capten byddin brenin Syria yn ddyn uchel gan ei feistr ac yn fawr ei barch, am mai trwyddo ef yr oedd yr ARGLWYDD wedi gwaredu Syria. Ond aeth y rhyfelwr praff yn ŵr gwahanglwyfus.

Pan oeddent ar gyrch yn nhir Israel cipiodd y Syriaid eneth ifanc a'i dwyn i weini ar wraig Naaman. Dywedodd wrth ei meistres, "Gresyn na fyddai fy meistyr yn gweld y proffwyd sydd yn Samaria; byddai ef yn ei wella o'i wahanglwyf."

Pan ddarllenodd brenin Israel y llythyr, rhwygodd ei ddillad a dweud, "Ai Duw wyf fi i beri marw neu fyw, bod hwn yn anfon ataf i wella dyn o'i wahanglwyf? Sylwch ar hyn, yn awr, a gwelwch mai chwilio am achos yn ferbyn y mae."

Pan glywodd Eliseus, gŵr Duw, fod brenin Israel wedi rhwygo'i ddillad, anfonodd at y brenin a dweud, "Pam yr wyt yn rhwygo dy ddillad? Gad iddo ddod ataf fi, er mwyn iddo wybod fod proffwyd yn Israel."

Felly daeth Naaman, gyda'i feirch a'i gerbydau, a sefyll o flaen drws tŷ Eliseus, a gyrrodd Eliseus neges allan ato: "Dos ac ymolchi saith waith yn yr Iorddonen, ac adferir dy gnawd yn holliach iti."

Ffromodd Naaman, ac aeth i ffwrdd a dweud, "Meddyliais y byddai o leiaf yn dod allan a sefyll a galw ar enw'r ARGLWYDD ei Dduw, a symud ei law dros y fan, a gwella'r gwahanglwyf. Onid yw Abana a Pharpar, afonydd Damascus, yn well na holl ddyfroedd Israel? Oni allwn ymolchi ynddynt hwy, a dod yn lân?"

Trodd, a mynd i ffwrdd yn ei ddig. Ond daeth ei weision ato a dweud wrtho, "Petai'r proffwyd wedi dweud rhywbeth mawr wrthynt, oni fyddit wedi ei wneud? Onid rheitiach felly gan mai dim ond 'Ymolch a bydd lân' a ddywedodd?"

Ar hynny fe aeth i lawr, ac ymdrochi saith waith yn yr Iorddonen yn ôl gair gŵr Duw, a daeth ei gnawd yn lân eto fel cnawd bachgen bach.

Yna dychwelodd ef a'i holl fintai at ŵr Duw, a sefyll o'i flaen a dweud, "Dyma fi'n gwybod yn awr nad oes Duw mewn un wlad ond yn Israel.

Y Salm (111)

Molwch yr ARGLWYDD. Diolchaf i'r ARGLWYDD â'm holl galon yng nghwmni'r uniawn, yn y gynulleidfa. Mawr yw gweithredoedd yr ARGLWYDD, fe'u harchwilir gan bawb sy'n ymhyfrydu ynddynt.

Llawn anrhydedd a mawredd yw ei waith, a saif ei gyfiawnder am byth. Gwnaeth inni gofio ei ryfeddodau; graslon a thrugarog yw'r ARGLWYDD.

Mae'n rhoi bwyd i'r rhai sy'n ei ofni, ac yn cofio ei gyfamod am byth. Dangosodd i'w bobl rym ei weithredoedd trwy roi iddynt etifeddiaeth y cenhedloedd.

Y mae gwaith ei ddwylo yn gywir a chyfiawn, a'i holl orchmynion yn ddibynadwy; y maent wedi eu sefydlu hyd byth, ac wedi eu llunio o wirionedd ac uniondeb.

Rhoes waredigaeth i'w bobl, a gorchymyn ei gyfamod dros byth. Sanctaidd ac ofnadwy yw ei enw. Dechrau doethineb yw ofn yr ARGLWYDD; y mae deall da gan bawb sy'n ufudd. Y mae ei foliant yn para byth.

Darlleniad o 2 Timotheus (2.8-15)

Cofia Iesu Grist: ei gyfodi oddi wrth y meirw, ei eni o linach Dafydd, yn ôl yr Efengyl yr wyf fi yn ei phregethu. Yng ngwasanaeth yr Efengyl hon yr wyf yn dioddef hyd at garchar, fel rhyw droseddwr, ond nid oes carchar i ddal gair Duw. Felly, yr wyf yn goddef y cyfan er mwyn ei etholedigion, iddynt hwythau hefyd gael yr iachawdwriaeth sydd yng Nghrist Iesu, ynghyd â gogoniant tragwyddol.

Dyma air i'w gredu: "Os buom farw gydag ef, byddwn fyw hefyd gydag ef; os dyfalbarhawn, cawn deyrnasu hefyd gydag ef; os gwadwn ef, bydd ef hefyd yn ein gwadu ninnau; os ydym yn anffyddlon, y mae ef yn aros yn ffyddlon, oherwydd ni all ef ei wadu ei hun."

Dwg ar gof i bobl y pethau hyn, gan eu rhybuddio yng ngŵydd Duw i beidio â dadlau am eiriau, peth cwbl anfuiddiol, ac andwyol hefyd i'r rhai sy'n gwrando. Gwna dy orau i'th wneud dy hun yn gymeradwy gan Dduw, fel gweithiwr

heb achos i gywilyddio am ei waith, yn ddiwyro wrth gyflwyno gair y gwirionedd.

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc (17.11-19)

Yr oedd ef, ar ei ffordd i Jerwsalem, yn mynd trwy'r wlad rhwng Samaria a Galilea, ac yn mynd i mewn i ryw bentref, pan ddaeth deg o ddynion gwahanglwyfus i gyfarfod ag ef. Safasant bellter oddi wrtho a chodi eu lleisiau arno: "Iesu, feistr, trugarha wrthym."

Gwelodd ef hwy ac meddai wrthynt, "Ewch i'ch dangos eich hunain i'r offeiriaid." Ac ar yr ffordd yno, fe'u glanhawyd hwy.

Ac un ohonynt, pan welodd ei fod wedi ei iacháu, a ddychwelodd gan ogoneddu Duw â llais uchel. Syrthiodd ar ei wyneb wrth draed Iesu gan ddiolch iddo; a Samariad oedd ef.

Atebodd Iesu, "Oni lanhawyd y deg? Ble mae'r naw? Ai'r estron hwn yn unig a gafwyd i ddychwelyd ac i roi gogoniant i Dduw?"

Yna meddai wrtho, "Cod, a dos ar dy hynt; dy ffydd sydd wedi dy iacháu di."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd, gweddiwn am i'th ras ein rhagflaenu a'n dilyn bob amser, a gwna i ni ymroddi'n gyson i bob gweithred dda; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN